Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Bodedern**

**Cylch Meithrin Bodedern**
**Ysgol Gynradd Bodedern**
**Ty'n Ffordd**
**Bodedern**
**LL65 3TZ**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

Final unpublished report



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

19/10/2021

Final unpublished report

***Llywodraeth Cymru*** © Hawlfraint y Goron 2021.

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:* psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Bodedern

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin Bodedern |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

unpublished report

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Yr Amgylchedd** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Nid oes angen sgôr** |

Am ragor o wybodaeth ar sgoriau, ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn.

### Crynodeb

***Cafodd yr arolygiad hwn ei gynnal yn ystod pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.***

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Maent yn ffurfio cyfeillgarwch ag eraill o'u cwmpas. Mae plant yn elwa o brofiadau chwarae a dysgu digonol, sydd yn eu cefnogi i wneud cynnydd. Mae'r staff yn garedig a gofalgar ac yn ystyriol o anghenion a hoffterau'r plant. Mae'r safle yn lân ac yn darparu gwagle a chyfleusterau i blant ddatblygu a dysgu. Mae'r bobl sy'n cynnal y gwasanaeth yn deall eu rôl wrth reoli'r gwasanaeth. Maent yn gwneud newidiadau er mwyn

gwella profiadau chwarae a dysgu'r plant, ac mae ganddynt bartneriaethau cadarnhaol â rhieni, yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Final unpublished report

## Llesiant — Nid oes angen sgôr

Mae gan blant gyfleoedd i ddewis a phenderfynu sut maent yn treulio eu hamser. Maent yn dewis eu teganau a'u gweithgareddau eu hunain, ac yn rhydd i symud o un gweithgaredd i'r llall fel y mynnant. Mae plant yn siarad yn hyderus â'r rhai o'u cwmpas; maent yn gofyn am yr hyn maen nhw ei eisiau, gan wybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt. Er enghraifft, mae staff yn gwrando ar beth sydd gan blant i'w ddweud yn ystod amser cylch.

Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent wedi ymgartrefu ac maent yn gyfforddus wrth chwarae ochr yn ochr â staff a'u ffrindiau. Maent yn mwynhau eistedd wrth y bwrdd yn creu siapau â chlai. Maent yn ymgynnull yn hyderus i ddawnsio i'w hoff ganeuon. Pan fyddant wedi cynhyrfu, mae plant yn cael eu cysuro, ac mae hyn yn eu helpu i barhau â'u gweithgareddau chwarae. Felly cydnabyddir anghenion plant.

Mae plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac â'r staff. Maent yn cyfeirio at y staff fel 'Anti' wrth siarad â hwy, gan ddangos parch atynt. Maent yn gwrando pan ofynnir iddynt beidio dringo ar y dodrefn. Mae plant yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt, ac maent yn gwybod i ofyn os oes angen iddyn nhw adael yr ystafell chwarae i ddefnyddio'r tŷ bach. Wrth chwarae y tu allan, roedd plant yn dal dwylo ac yn chwerthin wrth iddynt redeg o amgylch yr iard.

Mae plant yn mwynhau chwarae â'r ystod resymol o adnoddau sydd ar gael. Gwelsom blant yn estyn adnoddau o'r unedau storio lefel isel. Fe wnaethant chwarae â'r rhain ar yr ardal â matiau. Maent yn dechrau dysgu sut i rannu gyda'i gilydd. Roedd peth tystiolaeth bod plant wedi cwblhau gwaith yn ymwneud â'r thema gyfredol, sef 'yr hydref', gan fod hyn yn cael ei arddangos ar y wal.

Mae plant yn dechrau gwneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn gwisgo eu cotiau cyn mynd allan i chwarae. Maent yn golchi eu dwylo pan maent yn cael eu cyfarwyddo i wneud hynny ac maen nhw'n dechrau adnabod eu henwau wrth gofrestru.

Final unpublished report

## Gofal a Datblygiad — Nid oes angen sgôr

Mae gan staff ddealltwriaeth sylfaenol o'u rôl wrth gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn dilyn polisi COVID-19 priodol ac yn gwybod beth i'w wneud os oes pryderon ganddynt am blentyn, ond nid oeddent yn ymwybodol o'r cymhwysiad diogelu newydd sy'n cael ei grybwyll yn eu polisi. Dim ond un aelod o staff sydd â thystysgrif cymorth cyntaf gyfredol, felly dim ond cymorth cyntaf sylfaenol y gellid ei roi os bydd angen. Cwblheir cofrestri presenoldeb dyddiol ynghyd â chofnodion ar gyfer damweiniau, digwyddiadau ac, os oes angen, rhoi meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid oedd y system ar gyfer cofnodi damweiniau yn glir. Mae staff yn ceisio hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r posibilrwydd o groes-heintio. Er enghraifft, roedd staff yn cefnogi plant i olchi eu dwylo cyn amser cinio, ond cafodd hylif diheintio dwylo ei ddefnyddio cyn amser byrbryd. Cadarnhaodd staff fod eu gweithdrefn ar gyfer newid clytiau yn bodloni canllawiau rheoli

heintiau. Mae'r cofnodion a welwyd yn dangos na chynhaliwyd ymarferion tân mor rheolaidd ag yr oedd angen.

Mae staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant, yn eu canmol am wneud rhywbeth yn dda, ac yn parchu beth sydd ganddynt i'w ddweud. Er enghraifft, roedd staff ar gael i gynnig geiriau o anogaeth pan oeddent i gyd yn eistedd ochr yn ochr â phlant wrth iddynt chwarae. Mae staff yn creu amgylchedd croesawgar, gan ffurfio profiad cyfforddus lle mae plant yn gallu ymlacio. Mae staff yn esbonio mewn modd rhesymol fel bod plant yn deall, ac yn modelu rhyngweithio cadarnhaol yn dda. Er enghraifft, roedd staff yn helpu gyda rhywfaint o'r tacluso.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion. Er enghraifft, mae staff yn helpu i blicio ffrwythau neu i agor pecynnau bwyd amser cinio. Maent yn cynnig gweithgareddau strwythuredig cyfyngedig gan eu bod wedi dechrau gweithio yn unol ag ethos ‘cynllunio yn y foment’. Esboniodd staff eu bod wedi mynychu hyfforddiant yn ddiweddar a oedd wedi eu cyflwyno i’r athroniaeth newydd o ‘ddilyn y plentyn’ a chymryd rhan yn eu dewis rhydd o weithgareddau. Nid yw hyn wedi'i weithredu'n llawn eto yn ymarferol. Dywedasant wrthym eu bod yn darganfod eu ffordd ac yn ceisio gweithio allan y ffordd orau i weithredu'r ffordd newydd o weithio. Mae staff yn ymgysylltu'n dda â'r plant, trwy siarad â hwy a sicrhau bod ganddynt yr hyn sydd angen arnynt a'u bod yn hapus.

Final unpublished report

## Yr Amgylchedd — Nid oes angen sgôr

Nod y bobl sy'n cynnal y gwasanaeth yw darparu amgylchedd diogel a saff. Fodd bynnag, ni chanfuwyd pob perygl mewn asesiadau risg, ac nid oedd asesiadau risg dyddiol mwy diweddar wedi'u cwblhau. Mae'r drws ffrynt sydd dan glo yn cyfyngu mynediad i'r adeilad ac mae'n ofynnol i ymwelwyr lofnodi wrth fynd i mewn a gadael. Nid yw staff bob amser yn deall eu rôl yn llawn wrth gadw'r lleoliad yn ddiogel, gan inni weld cwpwrdd storio heb ei gloi, a gallai'r drws i dŷ chwarae'r plant fod wedi achosi anaf. Mae hyn oherwydd, pan oedd ar agor, nid oedd wedi'i rwystro i'w atal rhag cau yn y gwynt. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cwblhau tasgau glanhau.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau bod yr adeilad yn darparu digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion plant. Er enghraifft, mae lloriau meddal sydd newydd eu gosod yn yr awyr agored yn creu lle croesawgar a diogel i'r plant. Fodd bynnag, roedd glaswellt sydd wedi gordyfu a risgiau posibl i ddiogelwch plant yn golygu nad oedd rhan fawr o'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel i'w defnyddio. Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol fod y pwyllgor wedi cytuno i ariannu ffens ar gyfer amgáu'r ardal anniogel a chaniatáu amser iddynt ddatblygu'r ardal.

Mae'r gosodiad a'r cynllun yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gyda'r ystafell chwarae wedi ei gosod gydag adnoddau ar gael mewn unedau storio lefel isel o fewn eu gafael. Mae sinciau ar lefel isel yn y toiledau yn galluogi plant i olchi eu dwylo ar eu pennau eu hunain. Mae'r amgylchedd yn groesawgar i blant gan fod ganddynt begiau ar lefel isel er mwyn hongian eu heitemau personol ac mae ganddynt eu drôr crefftau eu hunain wedi ei labelu yn yr ystafell chwarae.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau bod gan blant ddewis rhesymol o deganau ac offer, sydd yn addas ar gyfer eu hoedrannau a chyfnod eu datblygiad. Mae yno ddodrefn sydd yn briodol ar gyfer eu hoedran, fel byrddau a chadeiriau ar gyfer gweithgareddau grŵp a matiau wedi eu clustogi ar y llawr. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau bod gan blant gyfleoedd i greu crefftwaith gan ddefnyddio paent a deunyddiau eraill.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Nid oes angen sgôr

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn ei reoli ag ymrwymiad ac ymroddiad ond mae angen gwelliannau mewn rhai meysydd. Maent yn adolygu eu polisïau a gweithdrefnau ac maent wedi mabwysiadu polisïau a gyflwynwyd gan y sefydliad cymorth. Nid oedd yr unigolyn â gofal a benodwyd yn bresennol yn ystod yr arolygiad; nid oes gan y dirprwy gymhwyster perthnasol sydd wedi'i restru ar restr cymwysterau priodol Gofal Cymdeithasol Cymru eto. Mewn sefyllfa lle nad oes gan yr unigolyn â gofal y cymhwyster perthnasol, rhaid cyflwyno cynllun cymorth i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn amlinellu sut y bydd yn cael ei gefnogi i gyflawni ei rôl a phryd y mae'n anelu at ennill y cymhwyster priodol. Dylai'r datganiad o ddiben ddarparu adroddiad llawn o'r strwythur staffio cyfredol.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal blynyddol ac yn gwneud gwelliannau rhesymol er budd y plant.

Mae ffeiliau staff yn weddol drefnus ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r dogfennau sy'n ofynnol. Cadarnhawyd bod gwybodaeth goll bellach yn ei lle yn dilyn ein hymweliad. Roedd yr holl wybodaeth ofynnol ar gael yn ffeiliau'r plant. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y pwyllgor a’r unigolyn cyfrifol, sydd yn ymweld â'r lleoliad ac yn mynd i'r afael â materion wrth iddynt godi.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol â rhieni, yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r berthynas waith agos â'r ysgol leol yn gwneud trefniadau pontio i'r ysgol yn haws ar gyfer plant. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen arnynt gan rieni cyn i'w plentyn gychwyn. Mae staff yn hysbysu rhieni am amser eu plentyn yn y gwasanaeth trwy sgyrsiau wyneb yn wyneb rheolaidd.

Final unpublished report

## Argymhellion i fodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 – Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o’r hyn sydd wedi’i gynnwys yn y polisi diogelu.

A2 – Ystyried cynyddu'r gymhareb o staff sydd â chymhwyster cymorth cyntaf.

A3 – Sicrhau bod y system ar gyfer cofnodi damweiniau neu ddigwyddiadau yn glir i staff.

A4 – Sicrhau bod dwylo wastad yn cael eu golchi â dŵr a sebon fel yr amlinellir yn yr offeryn archwilio rheoli heintiau.

A5 – Sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cwblhau ar ddechrau pob tymor o leiaf.

A6 – Sicrhau bod drws y cwpwrdd storio yn cael ei gadw dan glo.

A7 – Sicrhau bod y gwaith cytunedig ar yr ardal chwarae awyr agored yn cael ei gwblhau.

A8 – Ystyried cyflwyno adnoddau i hyrwyddo chwilfrydedd plant.

A9 – Ystyried cynnwys y trefniadau staffio os bydd salwch yn y datganiad o ddiben.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| **Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| | | |

Final unpublished report

**Dyddiad cyhoeddi** 29/12/2021'

Final unpublished report